

CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CAERFFILI
Y GYFARWYDDIAETH GWASANAETHAU CYMDEITHASOL

TÎM COMISIYNU (OEDOLION)

ADRODDIAD MONITRO CONTRACT

Enw'r darparwr:	Care Management Group (CMG)
Enw a chyfeiriad y gwasanaeth:	Cwm Hyfryd 48 Heol Hafren Y Bryn Pontllan-fraith Coed Duon NP12 2GA Ffôn: 01495 227703
Dyddiadau ymweld:	13 Mawrth, 27 Mawrth a 29 Ebrill 2019
Swyddog(ion) Ymweld:	Diane Davies, Comisiynu (Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili)
Yn bresennol:	Wayne Bishop – Uwch-weithiwr Cymorth Keith Owen – Rheolwr Cofrestredig

1 Cefndir

Mae Cwm Hyfryd yn fyngalo sengl pum ystafell wely sydd wedi'i leoli mewn ardal breswyl dawel ym Mhontllanfraith. Y Care Management Group, sef darparwr cofrestredig o fewn Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, sy'n berchen arno a'i reoli.

Ar adeg yr ymweliad, roedd 4 preswlydd gwrywaidd yn byw yn yr eiddo, gydag un yn cael ei ariannu gan Gaerffili, a thri gan awdurdodau lleol eraill, gyda chynlluniau i breswlydd gwrywaidd arall symud i mewn.

Yn ystod yr ymweliadau, roedd modd i'r swyddog weld llawer o ffeiliau, prosesau, gweithdrefnau a dogfennau, cwrdd â rheolwr y tŷ, yr uwch-aelodau staff ac aelodau staff eraill a phob preswlydd.

Gan ddibynnu ar y canfyddiadau yn yr adroddiad, rhoddir camau unioni a chamau datblygu i'r darparwr eu cwblhau. Mae camau unioni yn rhai y

mae'n rhaid eu cwblhau (yn ôl deddfwriaeth), ac mae camau datblygu yn argymhellion o ran arfer da.

2 **Argymhellion Blaenorol**

2.1 Camau Unioni

Dim

2.2 Camau Datblygu

Ystyried gwneud gwaith cynnal a chadw yn yr ystafell haul.

Gosodwyd llenni newydd yn yr ystafell haul ac mae Rheolwr y Tŷ wrthi'n prynu haen uwchfioled addas ar gyfer y ffenestr yn y to i leihau gwres a disgleirdeb.

wedi'u
cyflawni

3 **Canfyddiadau o'r ymweliad**

Dogfennau

Caiff yr holl ffeiliau personol ar gyfer staff a phreswylwyr eu cadw'n ddiogel mewn cwpwrdd wedi'i gloi yn swyddfa'r rheolwr. Gwelwyd pedair ffeil ac roedd pob un yn cynnwys mynegai a rhanwyr sy'n golygu ei fod yn hawdd canfod y dogfennau gofynnol.

Roedd sawl ffeil yn cynnwys yr holl bolisiâu a gweithdrefnau, a chawsant eu hadolygu yn 2018 gan nodi dyddiadau adolygu'r dyfodol. Roedd pob dogfen yn hygyrch i staff eu gweld.

Cafodd yr holl ddogfennau eu casglu'n glir ac roedd y proffiliau personol a phroffiliau unigolion coll yn cynnwys llun cyfredol o'r preswlydd. Roedd y cynllun personol yn canolbwyntio ar ganlyniadau, ac yn cynnwys gwybodaeth a roddodd drosolwg da o'r unigolyn a'i anghenion yn ystod y dydd a gyda'r nos, ynghyd â'r hyn mae'n ei hoffi a'r hyn nad yw'n ei hoffi.

Roedd y canllaw i Ddefnyddwyr Gwasanaethau yn hawdd ei ddefnyddio ac yn hawdd ei ddarllen, gyda phrint bras a lluniau ategol, ac roedd hyn yn dystiolaeth bod CMG yn cynhyrchu gwybodaeth mewn gwahanol fformatau yn ôl y gofyn.

Roedd gan yr holl bolisiâu a gweithdrefnau, a'r holl ddogfennau a welwyd, daflenni darllen a llofnodi, gyda llofnodion staff yn bresennol trwy gydol y ffeiliau i gadarnhau eu bod wedi'u cydnabod.

Roedd llawer o asesiadau risg ar waith a ddarparodd arweiniad i staff

mewn meysydd fel tagu, ymddygiad, cael mynediad i'r gymuned, ariannol ac ati, ac roedd pob un wedi'i ddiweddarau. Gwelwyd WARRN ar un ffeil o 2016, ond roedd dyddiad adolygu wedi cael ei drefnu.

Mae gweithwyr proffesiynol ynghlwm yn ôl yr angen, a gwelwyd tystiolaeth o sawl ymweliad, apwyntiad ac atgyfeiriad a wnaed i Weithwyr Cymdeithasol, therapyddion galwedigaethol, ymgynghorwyr ac ati ar y ffeil.

Dull gofal

Mae'r darparwr yn canolbwyntio ar ganlyniadau, a bydd yn hyrwyddo annibyniaeth y preswylwyr trwy ddarparu cymorth gweithredol i annog unigolion i gymryd rhan mewn cymaint o agweddau ar eu bywydau bob dydd â phosibl.

Trwy gydol yr ymweliadau, arsylwyd ar y preswylwyr yn cael eu cefnogi gan aelodau staff, a braf oedd gweld un gŵr yn gwneud diod i'w hun yn y gegin. Hefyd, gwelwyd ffotograffau o un preswilydd yn mwynhau paratoi brechwast ac yn cwblhau tasgau yn ei ystafell wely.

Yn ystod pob ymweliad, defnyddiwyd dull oedd yn canolbwyntio ar yr unigolyn penodol, gyda gwahanol ddulliau cyfathrebu'n cael eu defnyddio, fel geiriau, arwyddion dwylo a gwrthrychau cyfeirio. Roedd yn amlwg bod staff a phreswylwyr yn gyfarwydd â'i gilydd ac yn gyfforddus yng nghwmni ei gilydd.

Mae Cwm Hyfryd yn cefnogi preswylwyr a theuluoedd i gynnal eu perthnasoedd, ac mae aelodau teulu yn cael eu croesawu bob amser, a byddant yn ymweld â'r preswylwyr yn rheolaidd.

Roedd yn amlwg bod preswylwyr yn mwynhau llawer o weithgareddau yn y cartref a thu allan i'r cartref, fel mynd allan yn y car, cerdded, mynd i'r dafarn leol a theithiau i'r theatr, yn ogystal â mynd i'r eglwys.

Mae Cwm Hyfryd yn gwbl ymwybodol o'r ddeddfwriaeth Ddiogelu ac mae gan CMG broses adrodd fewnol y mae'r holl staff yn ei dilyn, gan wneud atgyfeiriadau yn unol â chynghor y brif swyddfa.

Maeth

Mae Cwm Hyfryd yn hyrwyddo opsiynau bwyta'n iach i leihau eu defnydd

o ychwanegion fel cadwolion, lliwiau, melysyddion a halen ac ati, a byddant yn prynu cynnyrch ffres yn bennaf, er mwyn coginio bob dydd.

Yn eu tro, bydd yr holl breswylwyr yn mynd gyda'r staff i'r archfarchnad ac yn cyfrannu at siopa bob wythnos e.e. gosod eitemau yn y fasedg siopa. Hefyd, rhoddir cymorth gweithredol i breswylwyr i'w cynnwys yn y broses o baratoi prydau bwyd a gwneud diodydd ac ati.

Gall pob preswilydd ddewis beth maen nhw eisiau i frecwast a the bob dydd, ond mae'r prif brydau'n cael eu paratoi ar gynllun bwydlen dreigl tair wythnos, sydd wedi'i greu ar sail dewisiadau preswylwyr, ac mae opsiynau amgen ar gael i breswylwyr unigol os oes angen.

Amgylchedd

Mae digon o le yno, ac mae'r tŷ wedi'i gyflwyno'n dda iawn drwyddi draw, gyda lluniau o'r preswylwyr unigol ar y waliau yn y lolfaf a'r cyntedd. Roedd pob ystafell wely wedi'u personoli a'u haddurno'n unigol gyda chloeon ar y drysau, os oedd eu hangen.

Cyflwynwyd ystafell synhwyraidd yn ddiweddar, ac roedd hon wedi'i haddurno a'i llenwi i alluogi'r preswylwyr i ymlacio, gwranddo ar gerddoriaeth, chwarae offerynnau cerddorol ac ati. Mae gwaith yn cael ei wneud i addasu'r ystafell ymolchi yn ystafell wlyb er mwyn bodloni holl anghenion y preswylwyr.

Roedd y tir o gwmpas y byngalo yn lân ac yn daclus, a braf oedd gweld un preswilydd yn mwynhau'r awyr agored yn yr ardd.

Cwestiynau i staff

Roedd yr aelod staff yn gwybod yn iawn ym mhle'r oedd ffeiliau preswylwyr yn cael eu cadw, ynghyd â chynlluniau cymorth a gofal, cynlluniau personol ac asesiadau risg, a dywedodd y gallai gael mynediad atynt unrhyw bryd. Hefyd, dywedodd yr aelod staff bod unrhyw ddiweddariadau i ddogfennau'n cael eu nodi yn y llyfr cyfathrebu, a rhaid i staff lofnodi taflen i gadarnhau eu bod wedi darllen a deall y cynnwys.

Rhoddodd yr aelod staff ganmoliaeth i reolwr y tŷ am ei bolisi drws agored a dywedodd ei fod yn cyfathrebu'n dda gyda'r preswylwyr a'r staff trwy gydol y dydd. Hefyd, ychwanegodd bod y rheolwr yn hawdd mynd ato ac yn gefnogol iawn.

Dyweddodd yr aelod staff y byddai'n cefnogi preswylwyr cymaint â phosibl i fod yn rhan o'r gymuned, pan fyddant yn dymuno hynny, a darparodd enghreifftiau o weithgareddau fel sioeau theatr, ffeiriau, cerdded i'r siop/tafarn leol, yn ogystal â'u cefnogi i arddel eu credoau crefyddol a mynd â nhw i'r eglwys. Hefyd, dywedodd yr aelod staff bod y preswylwyr yn elwa ar weithgareddau yn y tŷ fel sesiynau ymlacio, a'u bod yn eu mwynhau'n arw.

Roedd hi'n amlwg bod yr aelod staff yn ymwybodol o'r holl breswylwyr a'u hanghenion, a'r hyn sy'n bwysig i'w wybod amdanyn nhw. Dywedodd bod pob preswilydd yn ddi-eiriau darparodd wybodaeth dda am anghenion unigol a dangosodd y gwahanol ffyrdd o ddeall a chyfathrebu â phob preswilydd.

Recriwtio, hyfforddi a sefydlu

Roedd ffeiliau staff yn cynnwys y gwaith papur angenrheidiol ac yn dangos y defnyddiwyd proses recriwtio drylwyr, gyda'r holl wybodaeth ofynnol, fel ffurflen gais, dau eirida, swydd-ddisgrifiad, dull adnabod gyda ffotograff, DBS diweddar, contract cyflogaeth, tystysgrifau hyfforddiant ac ati, ar gael i'w gweld ar y ffeil.

Ar hyn o bryd, mae CMG yn darparu sesiynau sefydlu mewnol i'r holl staff, ac roedd gweld yr aelod mwyaf newydd o staff yn cael ei helpu trwy'r broses yn galonogol.

Mae CMG yn cynnig cyrsiau hyfforddi gorfodol a rhai nad ydynt yn orfodol, ac mae'r rhain yn cynnwys e-ddysgu a sesiynau wyneb yn wyneb mewn ystafell ddosbarth. Mae CMG yn darparu'r rhan fwyaf o'r hyfforddiant yn fewnol, ond byddant yn defnyddio cwmnïau allanol ar gyfer cyrsiau fel cymorth cyntaf. Gwelwyd y matrices hyfforddiant, a rhoddodd hyn dystiolaeth bod y staff wedi bodloni'r gofynion hyfforddiant gorfodol diweddaraf, a'u bod yn cael eu cefnogi i gael hyfforddiant sydd o ddiddordeb personol iddyn nhw.

Defnyddir system electronig i gofnodi a storio gwybodaeth am yr holl hyfforddiant a wneir, o'r enw 'fulfilling potential'. Mae aelodau staff yn gyfrifol am sicrhau bod eu hyfforddiant wedi'i ddiweddarau, ac mae modd iddynt gael mynediad i'r safle i wneud cais am unrhyw hyfforddiant sydd o ddiddordeb iddynt. Os bydd unrhyw hyfforddiant gorfodol yn hwyr,

bydd y system yn anfon neges e-bost at y rheolwyr.

Goruchwylio a Gwerthuso

Cafwyd cydnabyddiaeth o'r matrices goruchwylio, a rhoddodd hyn dystiolaeth bod staff yn cael eu goruchwylio'n rheolaidd, ynghyd â gwerthuso blynyddol. Roedd cofnodion goruchwylio hefyd ar gael i'w gweld mewn ffeiliau.

Iechyd a Diogelwch Tân

Gwelwyd Cynllun Personol Gadael mewn Argyfwng ar ffeil, a'r bwriad oedd ei adolygu ym mis Mehefin 2019, gyda'r gwacâd mwyaf diweddar wedi'i gynnal gyda staff a phreswylwyr ar 1 Mawrth 2019. Roedd pob aelod staff ar ddyletswydd wedi llofnodi i gadarnhau ei fod yn bresennol.

Mae staff Cwm Hyfryd yn trafod ac yn llenwi cynllunydd shiftt ar ddechrau pob shiftt, ac yn enwebu staff ar gyfer cyfrifoldebau amrywiol, i sicrhau y gwneir y dyletswyddau o ddydd i ddydd, fel cofnodi meddyginiaeth, tymheredd dŵr, cyfri arian ac ati. Mae rhestrau gwirio ar gyfer monitro wythnosol a misol hefyd ar waith.

Cwynion a Chanmoliaeth

Nid yw Cwm Hyfryd wedi derbyn unrhyw gwynion ers sawl blwyddyn.

Sicrhau Ansawdd

Mae CMG yn cynnal archwiliad ansawdd mewnol ar bob eiddo o leiaf dair gwaith y flwyddyn. Gwelwyd yr archwiliad ansawdd mewnol ar bob eiddo o leiaf dair gwaith trwy gydol y flwyddyn. Hefyd, gwelwyd yr adroddiad a gynhaliwyd ar 29 Ionawr 2019, ac roedd hyn yn dystiolaeth o ymarfer rhagorol.

Mae'r Adolygiad Ansawdd Blynyddol ar gyfer 2018 yn darparu data a gasglwyd o ymatebion i holiaduron gan staff, preswylwyr a rhanddeiliaid, a daeth hyn i'r casgliad fod yr ymarfer yn rhagorol hefyd.

4 Camau Unioni / Datblygu

4.1 Camau Unioni

Dim un

4.2 Camau Datblygu

Dylid sicrhau y llunnir cytundebau ar gyfer tynnu ffotograffau o'r

preswylwyr a'u rhannu, a dylid cael llofnodion i awdurdodi eu defnyddio.

5 **Casgliad**

Roedd yr ymweliadau'n gadarnhaol, a gwelwyd awyrgylch gynnes, groesawgar ac ymlaciol ar bob achlysur, ac arsylwyd ar lawer o arferion da trwy gydol yr ymweliadau. Roedd yr holl aelodau staff yn rhyngweithio'n dda gyda'r preswylwyr, ac roedden nhw'n barod i helpu a chefnogi bob amser.

O.N. Bydd yr adroddiad hwn ar gael trwy safle gwe Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili. Hefyd, bydd copïau caled o'r adroddiad hwn ar gael i unigolion a/neu eu teuluoedd os byddant yn gofyn i'w gweld.